Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Dyffryn yr Enfys

**Ysgol Dyffryn yr Enfys**
**Dolgarrog**
**LL32 8QE**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Dyffryn yr Enfys

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Dyffryn yr Enfys |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Llinos Wyn Griffiths |
| Person â gofal | Eleri Roberts |
| Nifer y lleoedd | 25 |
| Amrediad oedran y plant | 2 oed i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 5 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 11:45 a 14:45 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy’n darparu’r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae’n darparu gwasanaeth sy’n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf y lleoliad |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf y lleoliad |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/04/2022 |
| Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod trefniadau grwpio’r plant yn galluogi pob plentyn i gymryd rhan weithredol ym mhob gweithgaredd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi'n eiddgar ble maent eisiau chwarae, ac yn dewis naill ai i fynd tu allan neu i ddewis aros yn yr adeilad. Maent yn hapus i ddewis bocsys o adnoddau a dillad chwarae rôl, ac maent yn gwisgo clogynnau a hetiau gwahanol i efelychu cymeriadau hudol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n gartrefol iawn ac yn ymlacio'n llwyr wrth chwarae. Maent yn gwbl gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau. Er enghraifft, maent yn rhoi'r gorau i'w gweithgareddau yn ddiffwdan ar gais yr ymarferwyr i dacluso, ac wrth eu boddau wrth dderbyn canmoliaeth ganddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthynas gadarnhaol gydag ymarferwyr a'u cyfoedion. Maent yn hollol gyfforddus i fynd at ymarferwyr pan fydd rhywbeth yn eu poeni, gan wybod y byddant yn cael gwrandawiad ac yn derbyn cefnogaeth barod a dibynadwy.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Dywedant 'plîs' a 'diolch' ar eu liwt eu hunain ac maent yn dangos parch at ei gilydd ac ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd eu tro ac yn rhannu adnoddau'n dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio amserydd tywod yn annibynnol i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddefnyddio'r radio symudol. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddrwgdeimlad yn ystod y sesiynau chwarae a dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn amlwg yn mwynhau, ac yn ymgymryd yn hyderus a hapus gyda'u chwarae. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r llall, tu mewn a thu allan, ac yn canolbwyntio am gyfnodau hir. Ceir enghraifft arbennig o hyn wrth i grŵp o blant gydweithio i greu llwybr antur. Maent yn defnyddio planciau pren, cratiau llaeth a boncyffion yn frwdfrydig, cyn iddynt ddringo a neidio ac annog ei gilydd ar draws y llwybr yn llawn cyffro.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn annibynnol iawn, ac yn dyfalbarhau'n aeddfed. Er enghraifft, maent yn llenwi'r can dyfrio gyda dŵr o'r tanc sydd yn yr ardal tu allan yn synhwyrol, gan ddyfrhau'r blodau cyn dychwelyd i'w ail-lenwi. Mae'r rhan fwyaf o blant yn golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol heb anogaeth yr ymarferwyr, cyn bwyta eu cinio a'u byrbryd. Mae'r ychydig sydd yn gofyn am gymorth yn cael eu hannog i fentro'u hunain yn gyntaf i wella'u medrau annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae’r ymarferwyr yn canolbwyntio’n barhaus ar gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu holl bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol. Mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bob un ohonynt. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau. Mae’r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda’r plant ac yn darparu arweiniad a chymorth gofalgar. Maent yn casglu amrediad defnyddiol o wybodaeth gan rieni a gofalwyr am arferion unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o’u hanghenion a’u diddordebau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sydd yn ansicr wrth gyfarfod pobl anghyfarwydd ac yn eu cefnogi i ddatblygu hunanhyder. Mae’r ymarferwyr yn ymfalchïo yn y cynnydd a wna’r plant, ac maent yn angerddol ynglŷn â darparu’r gofal gorau er mwyn i’r plant ffynnu.

Mae'r ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando’n astud ar safbwyntiau'r plant, gan ymateb yn ofalus i’w hanghenion. Mae rhyngweithio’r ymarferwyr â’r plant yn gadarnhaol a charedig ac maent yn dangos urddas a pharch tuag at y plant yn gyson. Er enghraifft, maent yn ystyrlon a gwyliadwrus wrth ddelio ag anghenion personol y plant, ac yn frwdfrydig wrth ysbrydoli'r plant i ymateb yn egnïol i weithgareddau yn yr ardal allanol.

Hyrwydda’r ymarferwyr iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy’n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae'r arferion wedi eu hymgorffori'n bwrpasol yn arferion dyddiol y plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr iach. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu agweddau anturus a medrus tuag at ddysgu. Yn ogystal, mae gweithdrefnau effeithlon ar gael i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae addysgu’r ymarferwyr yn sbarduno’r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau pwrpasol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Mae dulliau addysgu craff yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio’n frwdfrydig. Maent yn fedrus wrth annog y plant i arbrofi wrth chwarae. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn datblygu’n ddysgwyr cynyddol annibynnol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn herio’r plant i ddidoli gwrthrychau, fel cyrc a chregyn, sydd naill ai’n arnofio neu’n suddo yn y twb dŵr.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod chwarae’r plant, sy’n cynnig cyfleoedd da i’r plant ystyried llwyddiant eu hymdrechion. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gyda'r plant ar sut i wella'u gwaith. Maent yn plethu’r sgyrsiau myfyriol hyn gyda’u hasesiadau yn gelfydd er mwyn cynllunio’r camau nesaf yn

nysgu plant unigol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn grwpio’r plant yn gwbl effeithiol ar bob achlysur. Ar adegau, mae’r plant hŷn yn tueddu rheoli gweithgareddau’n ormodol, sy’n amharu ar gyfleoedd dysgu’r plant iau.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n drwyadl ac yn ysgogi’r plant i ddysgu trwy amrediad o heriau ymarferol. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n dilyn awgrymiadau a diddordebau’r plant yn bwrpasol. Maent yn darparu gweithgareddau difyr, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau gwybyddol yn dda. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i rolio pitsa allan o does ac i’w addurno â seleri a chnau castan.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn holi’r plant yn ddeheuig wrth iddynt greu marciau gyda phaent a sialc a’u herio i gydbwyso cerrig mân a thywod ar glorian. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant, er enghraifft wrth ddefnyddio apiau addysgol ar lechi electronig.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth eu hannog i symud boncyffion coed gyda berfa a chwifio rhubanau wrth ddawnsio’n frwd. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol nodedig fel addurno silindr gyda phlu a phaent i greu cyw. Yn ogystal, maent yn cymysgu brigau, tywod a ffa yn y gegin fwd gyda’r plant i greu teisen ac yn annog y plant i wisgo fel eu hoff archarwyr wrth chwarae rôl.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn synhwyrol trwy astudio arferion Diwali a’r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy drafodaethau llafar yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sy’n ddiogel ac yn lân. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw risgiau sy’n cael eu hadnabod, er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Er enghraifft, maent yn cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y cyfarpar allanol yn cyfateb i ofynion diogelwch perthnasol.

Mae’r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch a’r gofynion sydd arnynt i gynnal driliau tân rheolaidd. Mae’r safle yn ddiogel ac ni all ymwelwyr fynd at unrhyw ran o’r lleoliad oni bai fod ymarferwyr yn rhoi mynediad iddynt. Yn ogystal, mae'r ffens allanol yn rhwystro unrhyw blentyn rhag gadael y safle heb ganiatâd ac mae drysau allanol yr adeilad dan glo.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a chyfeillgar. Mae cynllun yr amgylchedd a'r adnoddau yn cynnig cyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog. Mae’r ymarferwyr yn trefnu’r ystafell i ddarparu ardaloedd chwarae a dysgu symbylus i’r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd gwych i’r plant ddefnyddio'r cyfarpar a'r

adnoddau yn annibynnol, fel yn yr ardal chwarae rôl a’r ardal i greu marciau a chwarae'n greadigol.

Ceir amrywiaeth difyr o adnoddau sydd o fewn cyrraedd y plant ymhob ardal, gan gynnwys adnoddau sy’n hybu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal. Er enghraifft, mae doliau o wahanol ddiwylliannau ar gael a gwisgoedd gwahanol fel clogynnau archarwyr a sgertiau dawnswyr. Yn ogystal, darperir nifer fawr o adnoddau naturiol fel boncyffion coed, reis a cherrig mân sy’n hybu creadigrwydd y plant yn llwyddiannus.

Mae’r amgylchedd allanol yn cynnig gofod helaeth â chyfleoedd cyffrous i blant chwarae a dysgu yn yr awyr iach. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ailddefnyddio adnoddau i greu ardaloedd dysgu rhagorol ac anturus. Er enghraifft, mae’r llwyfan perfformio wedi ei greu o baled pren ac mae’r gegin fwd yn cynnwys llestri a chyfleoedd i'r plant ddefnyddio bwyd go iawn o’r gegin fel perlysiau sych a ffres. Yn yr ardal gwneud marciau, mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn cynnig dewis i’r plant o farcio ar bapur, byrddau gwyn a du a llechi naturiol Cymreig. Mae’r plant wrth eu boddau’n defnyddio'r adnoddau ac mae’r rhan fwyaf yn dewis treulio’u hamser tu allan yn gynhyrchiol. Mae’r drysau’n agored drwy’r sesiwn ac, o ganlyniad, gall y plant ddewis ble i chwarae yn ôl eu dymuniad. Mae’r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd uchel iawn, yn lân ac yn hawdd eu cyrraedd, sy’n galluogi’r plant i wneud dewisiadau chwarae annibynnol, doeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac maent yn canolbwyntio’n effeithiol ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Mae eu gweledigaeth yn glir sy’n sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio’n ddyfal i greu amgylchedd ysgogol, sy’n hybu dysgu’r plant yn llwyddiannus. Mae athroniaeth yr arweinwyr wedi ei seilio’n gadarn ar ddarparu amgylchedd, adnoddau a gweithgareddau sbardunol ar gyfer y plant. Maent yn cynnig gofal bugeiliol a thyner i’r plant, sy’n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a’r oedolion. Mae’r awyrgylch gadarnhaol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio’n effeithiol fel tîm. Mae’r ymarferwyr yn ddibynadwy ac maent yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau’r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae trefniadau rheolaidd yn eu lle i werthuso perfformiad ymarferwyr, ac maent yn goruchwylio a gwerthuso’u gwaith yn gydwybodol. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwto diogel yn cael eu gweithredu’n gywir.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau synhwyrol ac maent yn cefnogi’r ymarferwyr i gynnal safonau uchel. Maent yn adnabod cryfderau’r lleoliad a’r materion i’w gwella yn dda. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr sy’n cynnwys targedau priodol ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ailgydio mewn cysylltiadau cymunedol ar ôl y pandemig. Maent yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau’n gyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy’n ymwneud â’r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau uniongyrchol gyda’r holl randdeiliaid, fel y mudiadau

cefnogi, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando’n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu’r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau’r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau’r rhieni a’r gofalwyr yn ystyrlon, fel trefnu boreau agored a nosweithiau rhieni.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy’n cynnig profiadau difyr i’r plant. Er enghraifft, gwahoddwyd ffermwr a’i ŵyn i’r lleoliad er mwyn dysgu am anifeiliaid y fferm, ac wrth fynd am dro trwy’r pentref i wylio’r cyhoedd yn syrffio. Mae’r berthynas gynhyrchiol gyda’r ysgol yn paratoi’r plant i’r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

Mae’r arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n llwyddiannus. Maent yn defnyddio’r gyllideb a’r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddoeth. Maent yn galluogi’r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant bwriadus, sy'n gwella’u harferion addysgu a’u cynllunio. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn effeithlon, fel tŷ bach twt ac ardal arddio.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/06/2022